**<u>Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser</u>**

**<u>12.00-14.00, 29 Tachwedd, Ystafelloedd Cynadledda C a D, Tŷ Hywel.</u>**

**<u>Blwyddyn gyntaf y Cynllun Cyflawni Canser</u>**

Cyhoeddwyd y Cynllun Cyflawni Canser (y Cynllun) ym mis Tachwedd 2016. Roedd yn cynnwys nifer o gamau gweithredu, ar draws gwahanol agweddau ar y llwybr canser, gyda'r nod o wella canlyniadau a phrofiadau o ran canser yng Nghymru.

Yn y cyfarfod hwn, nodwyd ei bod yn flwyddyn ers cyhoeddi'r Cynllun gyntaf. Roedd yn gyfle i asesu elfennau o'r Cynllun a gafodd eu gweithredu'n llwyddiannus neu eu datblygu'n dda, a hefyd archwilio lle yr oedd cynnydd efallai'n arafach.

Cyn y digwyddiad, cynhaliodd Cancer Research UK arolwg byr ymhlith Cynghrair Canser Cymru i gael cipolwg ar sut, ym marn y Trydydd Sector, y mae'r broses o weithredu'r Cynllun wedi mynd rhagddo.

Caiff briff byr yn seiliedig ar ganlyniadau'r arolwg a'r trafodaethau yn y digwyddiad ei rannu â'r siaradwyr a phawb arall a oedd yn bresennol ym mis Ionawr.

1. **Agenda**

| | |
|---|---|
| 12.00 | Cinio |
| 12.30 | Croeso a Chyflwyniadau, Julie Morgan AC, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol |
| 12.35 | Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon |
| 12.45 | Dr Tom Crosby, Cyfarwyddwr Meddygol Rhwydwaith Canser Cymru |
| 12.55 | Susan Morris, Cadeirydd Cynghrair Canser Cymru |
| 1.05 | Trafodaeth |

**2. Cynrychiolwyr**

Cawsom nifer o gynrychiolwyr allanol o elusennau canser, ymchwilwyr, nyrsys, cleifion a Rhwydwaith Canser Cymru.

Aelodau'r Cynulliad:

Angela Burns AC

Lee Waters AC

David Rees AC

Llyr Gruffydd AC

Caroline Jones AC, Swyddfa

| | |
|---|---|
| Mags Holloway | BCC |
| Susan Morris | Macmillan |
| Lowri Griffiths | Bowel Cancer UK |
| Hywel Morgan | Rhwydwaith Canser Cymru |

Cymorth Canser Merthyr

Dr Sikha Du Soza

Leann Farrell

Pancreatic Cancer UK

Nick Phillips

Sally Jenkins

Sue Hadlow

Sian Whelan

Jayne Capryos

Anthony Davies

Barbara Burbridge ac un arall

Dr Tom Crosby

Kate Bevan

Lisa Miller

Clare Laxton

Gary Howel a phedwar arall

Libby Batt

Richard Pugh

Jane Spivey

Greg Pycroft

Louise Jackson

Sgrinio Coluddion Cymru

Jansen

Bowel Cancer Cymru

Claf

CR-UK

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Llywodraeth Cymru

Claf

Felindre

Prifysgol Caerdydd

Cyfarwyddwr Gweithrediadau Felindre

CLIC Sargent

Deietegwyr

Canolfan Ymchwil Canser Cymru

Macmillan

Deietegydd

Macmillan

Canser y Prostad

**3. Trafodaeth**

Bydd adroddiad llawn o'r drafodaeth ar gael ym mis Ionawr. Y prif gwestiynau a'r pwyntiau trafod i'r panel oedd:

1. Pam nad yw Rhaglen Sgrinio Canser y Coluddion ar gael i bobl 50-70 oed eto (yn 2008, addawyd y byddai'n cael ei chyflwyno yn 2015)?

Dywedodd Vaughan Gething fod y Rhaglen ar ei hôl hi oherwydd y galw am wasanaethau endosgopi. Mae'n dal am wneud mwy i gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar y Rhaglen gyfredol.

2. Ni chyflwynwyd yn llawn yr addewid yn etholiad 2011 y byddai gan bob claf canser yng Nghymru weithiwr allweddol.

Dywedodd Vaughan y bydd yn ysgrifennu yn ôl yn uniongyrchol ar y mater hwn.

3. Cwestiwn ynghylch ai Arolwg Profiad y Claf yw'r ffordd orau o fesur perfformiad yng Nghymru.

Mae Vaughan o'r farn bod yr arolwg yn ffordd dda o gasglu data a'i fod yn ddibynadwy.

3. Sut mae'r arian a ddyrannwyd yn ddiweddar i Fyrddau Iechyd Lleol i wella gwasanaethau diagnostig yn cael ei ddefnyddio?

Teimlai Vaughan fod angen gwneud llawer mwy eto i wella amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau diagnostig ac y dylai'r llwybr canser sengl newydd helpu yn hyn o beth.

4. A fydd y Strategaeth Gweithlu sydd ar y gweill gan GIG Lloegr yn arwain at unrhyw syniadau ynghylch y gweithlu yng Nghymru?

Mae Vaughan am wneud mwy i integreiddio'r gweithlu yng Nghymru a bydd corff newydd Iechyd Addysg Cymru yn helpu yn hyn o beth.

5. Mae angen cynnwys y diwydiant fel partner o ran addysg, diagnosteg a hyfforddiant.

Cytunodd Tom Crosby â hyn ac mae am wneud mwy o waith gyda chwmnïau fferyllol ar sganio'r gorwel.

6. Beth fydd effaith Brexit ar Dreialon Clinigol?

Cytunodd Tom fod ansicrwydd gan fod trefniadau llywodraethu ar lefel Ewropeaidd ar hyn o bryd, ond gallai hefyd fod yn gyfle i gael llai o fiwrocratiaeth.

7. A yw Rhwydwaith Canser Cymru yn hyderus y gall Byrddau Iechyd Lleol gyflawni'r Fframwaith Perfformiad Canser, ac a oes hyder y bydd yn gwneud hynny?

Cytunodd Tom fod lle i atebolrwydd y byrddau iechyd wella ond bod modd i'r trydydd sector a Rhwydwaith Canser Cymru ddatblygu'r Fframwaith Perfformiad Canser ar y cyd.

8. Pa gynlluniau sydd ar waith i wella'r Gweithlu Diagnostig yng Nghymru?

Dywedodd Tom fod Gogledd Cymru wedi recriwtio rhagor o batholegwyr ond bod y Llwybr Canser Sengl newydd yn golygu y bydd angen 20 y cant o staff diagnostig ychwanegol i gael cleifion yn y system yn gyflymach.